



Elliw Owen
Pennaeth Polisi Cynllunio
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LF

Ein cyf: qA1255872

17 Awst 2017

Annwyl Ms Owen,

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – Adolygiad 1^{af} (Ffurf Fer) o'r Cynllun wedi'i Adneuo – Ymgynghoriad Rheoliad 26B: Ymateb Llywodraeth Cymru

Diolch i chi am ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar ddogfennau'r Adolygiad 1^{af} (Ffurf Fer) o Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Rydym yn cydnabod ei bod yn gryn fenter paratoi CDLI a'i dystiolaeth ategol, ac yn cydnabod y gwaith a wnaed gan eich Awdurdod hyd yma i symud y cynllun yn ei flaen o Adroddiad yr Adolygiad i'r cam Adneuo.

Yn gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r dull yn eich Cynllun wedi'i Adneuo, sy'n ceisio nodi darpariaeth ar raddfa fach yn yr aneddiadau mwyaf cynaliadwy er mwyn diwallu anghenion a nodwyd yn lleol. Gellir cymharu lefel y cynnydd mewn tai a gynigir â chyfraddau cyflawni yn y CDLI a fabwysiadwyd ac, ar y sail hon, rydym yn cefnogi lefel y cynnydd a gynigir yn y cynllun ar y cyfan.

Fel y gallwch ddeall, bydd dangos bod y strategaeth yn cael ei chyflawni yn hanfodol, a dylai tystiolaeth eich Awdurdod gefnogi hyn. Rydym yn rhoi rhagor o fanylion yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Mae system cynllunio datblygu Cymru yn cael ei harwain gan dystiolaeth, a bydd dangos sut y caiff cynllun ei lywio gan dystiolaeth yn ofyniad allweddol yn ystod yr archwiliad. Mae dangos y broses o ddarparu pob safle, a'i hyfywedd, yn y CDLI yn allweddol, yn enwedig y safleoedd hynny sy'n rhan annatod o'r strategaeth ac amcanion y cynllun.

Heb amharu ar bwerau'r Gweinidog i ymyrryd yn ddiweddarach yn y broses, na'r archwiliad annibynnol, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol drwy gydol proses y CDLI. Rydym wedi ystyried eich CDLI wedi'i Adneuo yn unol â gofynion polisïau

cynllunio cenedlaethol a'r CDLI a fabwysiadwyd ac, o hyn, mae ein sylwadau yn ymwneud â **phwyntiau o eglurder** yn bennaf a fydd o bosibl yn cael eu trafod yn ystod yr archwiliad.

Cyflwynir sylwadau Llywodraeth Cymru yn ôl maes pwnc yn yr atodiad. Rydym wedi nodi lle mae angen rhagor o eglurder a/neu waith wrth symud ymlaen. Ymhlith rhai meysydd allweddol mae'r canlynol:

- Dyrannu tai – hyfywedd a'r broses ddarparu
- Ardal Fenter Eryri
- Sipsiwn a Theithwyr
- Mwynau
- Ynni Adnewyddadwy
- Yr Iaith Gymraeg

Mater i'ch Awdurdod yw sicrhau bod y CDLI yn 'gadarn' pan gaiff ei gyflwyno i'w archwilio, a mater i'r Arolygydd fydd penderfynu sut y bydd yr archwiliad yn mynd rhagddo ar ôl hynny. Dylech ystyried sut y gallech sicrhau cymaint â phosibl y caiff y cynllun ei ystyried yn 'gadarn' cyn yr archwiliad. Os hoffech gyfarfod i drafod unrhyw faterion sy'n codi o'r ymateb ffurfiol hwn i'ch CDLI wedi'i Adneuo, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,



Mark Newey
Pennaeth y Gangen Cynlluniau
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio

Rhif Cyf.	Sylwadau Llywodraeth Cymru
Strategaeth a Dosbarthiad Gofodol	
Rhif 57 Rhif 117	<p>Nid yw strategaeth y Parc Cenedlaethol wedi newid ac mae'n darparu ar raddfa fach i ddiwallu anghenion a nodwyd yn lleol. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu egwyddor y dull hwn.</p> <p>Mae Polisi Strategol C: Strategaeth Datblygu Gofodol yn ceisio cyfeirio gwaith datblygu at yr Aneddiadau Gwasanaeth Lleol, yr Aneddiadau Gwasanaeth a'r Aneddiadau Eilaidd mwy cynaliadwy, sy'n cyfrif am bron 80% o'r holl gynnydd mewn tai (Newid 117). Ar draws pob haen o anheddiad, mae'r Parc wedi parhau i gyfyngu ar ddatblygu tai newydd drwy gyfyngu ar dwf i ganran o'r gofyniad tai cyffredinol ym mhob haen. Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu eglurhad ar sut mae'r targedau a'r ystodau canran ym Mholisi C (a ddiwygiwyd gan Newid 57) wedi'u cyfrifo, gan gynnwys sut y byddant yn cael eu gweithredu a'u monitro. Mae'n ceisio eglurhad hefyd ar sut mae'r ystodau yn berthnasol i'r elfennau tai a argymhellir gan Newid 117. Er enghraifft, mae Polisi C yn cyfyngu ar ddatblygu tai i ystod o 17%-34% mewn Canolfannau Gwasanaethau Lleol. Sut mae'r ystod hon yn berthnasol i 24% mewn Canolfannau Gwasanaethau Lleol o'r tabl ar dudalen 74 (Newid 117)?</p>
Darpariaeth a Gofyniad Tai	
Rhif 113 Rhif 113 Rhif 114	<p>Mae'r ffigurau tai yn y cynllun wedi cael eu hystyried yn erbyn amcanestyniadau aelwydydd Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar 2013, yn ogystal ag anheddau a gwblhawyd yn y gorffennol, gallu'r ardal i ymdopi â thwf ychwanegol a'r materion allweddol y mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â nhw. Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hamcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd sy'n seiliedig ar 2014 ar gyfer Parciau Cenedlaethol Cymru. Dylai'r Awdurdod egluro goblygiadau (os oes rhai) yr amcanestyniadau diweddaraf sy'n seiliedig ar 2014 ar y cynllun.</p> <p>Mae Newidiadau 113 ac 114 yn nodi darpariaeth tai o 810 o unedau i fodloni gofyniad o 770 o aneddiadau (sy'n cynnwys 5% o hyblygrwydd). Mae'r lefel hon o gynnydd mewn tai yn cyfateb i 51 o unedau y flwyddyn, sy'n gymaradwy â chyfraddau darparu yn y cynllun sydd mewn bod. Ar y sail hon, nid yw Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu lefel y ddarpariaeth tai. Rydym yn ystyried ei bod yn angenrheidiol cynnwys lefel y ddarpariaeth tai, gofynion y cynllun a rhestr o'r holl safleoedd tai a ddyrennir yn y polisi, nid y testun ategol. Bydd hyn yn sicrhau y gellir cysylltu penderfyniadau cynllunio â pholisi a bod y cynllun yn cael ei fonitro'n effeithiol.</p>
Darparu a Chyflenwad Tai	
Rhif 115 Rhif 117 Rhif 147	<p><u>Darparu a Dyraniadau Safle</u></p> <p>Yn Newidiadau 115 ac 117, y cyfraniad o safleoedd a ddyrannwyd yw 23% o ddarpariaeth y cynllun. O'r 16 o safleoedd a ddyrannwyd sydd wedi'u rhestru (yn Newid 147), mae 11 ohonynt wedi'u nodi ar gyfer 100% o dai fforddiadwy, sy'n cyfrif am bron 70% o'r holl ddyraniadau yn y cynllun; ffigur sy'n uwch o lawer na'r un yn y CDLI a fabwysiadwyd. Dylai'r Awdurdod ddangos tystiolaeth gadarn o ddarparu dyraniadau ar gyfer tai fforddiadwy. Mae'r sail dystiolaeth sy'n ategu'r cynllun yn cyfeirio at faterion sy'n ymwneud â benthycia morgais ac argaeledd cyllid yn hyn o beth, a chyfraddau cwblhau is ar gyfer tai fforddiadwy. A oes gan yr Awdurdod dystiolaeth o gyflawni'r raddfa hon o safleoedd ar gyfer tai fforddiadwy? Dylid esbonio ac ystyried yr hyblygrwydd a roddir ym mharagraff 5.19 i ryddhau 100% o safleoedd tai fforddiadwy ar</p>

	<p>gyfer aneddiadau marchnad yng nghyd-destun Polisi Strategol G: Tai.</p> <p>Dylai'r Awdurdod ddangos tystiolaeth o ddarparu safleoedd, unrhyw ofynion allweddol o ran seilwaith a chostau cysylltiedig, ynghyd â nodi amserlenni, cyfnodau a systemau ariannu allweddol. Bydd hyn yn hanfodol i sicrhau y gellir cyflawni pob dyraniad dros gyfnod y cynllun.</p> <p>Rydym yn nodi bod yr Awdurdod wedi llunio tabl cyfrifo cyflenwad tir 5 mlynedd ym Mhapur Cefndir 7A (Atodiad 2), a fydd yn sail i daflwybr tai yn y dyfodol. Er gwaethaf hyn, rhaid cyfrifo'r tabl cyflenwad tir yn Atodiad 2 ar sail y gofyniad o 770 o aneddiadau, a rhaid i'r graff cysylltiedig ddangos cyfanswm darpariaeth y cynllun (o 810 o unedau), gyda rhywfaint o hyblygrwydd. Yn y bôn, mae gan daflwybr ddwy elfen. Mae un yn dangos hyblygrwydd dros gyfnod y cynllun (graff) ac mae'r llall yn dangos cyflenwad 5 mlynedd sy'n cysylltu â'r gofyniad tai (tabl cyflenwad). Bydd taflwybr tai o gymorth mawr i bob parti ddeall y ddarpariaeth o safleoedd dros gyfnod y cynllun. Dylai'r taflwybr gael ei gefnogi gan ddadansoddiad a dealltwriaeth o amseroedd datblygu ar gyfer safleoedd, y rhyngberthynas rhwng y safleoedd, cyfyngiadau posibl, costau, gofynion seilwaith a ffrydiau ariannu, ynghyd â thybjaethau cadarn ar hap-safleoedd er mwyn dangos cyflenwad tir ar gyfer tai am 5 mlynedd yn ystod cyfnod y cynllun.</p> <p><u>Egluro Elfennau Tai</u></p> <p>Rhif 117 Mae Papur Cefndir 7: Tai yn tynnu sylw at y ffaith bod gan rai o'r safleoedd a ddyrannwyd ganiatâd cynllunio llawn (yn rhannol) gyda thai eisoes wedi'u cwblhau ar y safle (Atodiad 2). Er gwaethaf hyn, mae statws cynllunio rhai safleoedd a ddyrannwyd yn aneglur yn y tabl elfennau tai, a dylai'r Awdurdod sicrhau nad oes unrhyw elfennau yn cael eu cyfrif ddwywaith rhwng safleoedd a ddyrannwyd, safleoedd a gwblhawyd a safleoedd a ymrwymwyd (Newid 117). Er enghraifft, dyrannwyd tir gerllaw Capel Horeb, Dyffryn Ardudwy, ar gyfer 9 uned yn y cynllun a fabwysiadwyd, ac mae'r Awdurdod ers hynny wedi cadarnhau y rhoddyd caniatâd cynllunio ar gyfer 7 uned (Atodiad 2). Mae'r Parc bellach wedi ailddyrrannu'r safle ar gyfer 5 annedd. A yw statws cynllunio'r safle hwn yn cael ei adlewyrchu'n gywir yn yr elfennau tai? Dylai'r Awdurdod fod yn sicr o statws datblygu pob dyraniad er mwyn llywio darpariaeth tai ac elfennau cyflenwi'r cynllun.</p> <p>Rhif 115 Mae'r cyfraniad o hap-safleoedd yn Newid 115 yn cynnwys safleoedd bach yn unig. Dylai'r Awdurdod egluro pam nad yw hap-safleoedd mawr (o 5+ uned) wedi'u cynnwys yn y cyflenwad tai. A yw'n realistig tybio na fydd safleoedd mawr ar gael i'w datblygu dros gyfnod y cynllun? Yn wir, o blith y 35 o safleoedd mawr â chaniatâd cynllunio yng nghydstudiaethau argaeledd tir ar gyfer tai 2016, ymddengys na chafodd llawer ohonynt eu dyrannu yn y cynllun sydd mewn bod. Dylai'r Awdurdod egluro pa mor gadarn yw'r dull hwn ac ystyried a yw'r lwfans hap-safleoedd presennol yn gadarn, yn ogystal ag ystyried yr angen am ddangosydd yn y fframwaith monitro i gofnodi'r defnydd o hap-safleoedd mawr.</p>
Hyfywedd Tai Fforddiadwy	
Rhif 152	<p><u>Astudiaeth Tai Fforddiadwy a Hyfywedd Safleoedd</u></p> <p>Mae Llywodraeth Cymru am gael eglurhad o hyfywedd ardaloedd is-farchnad yn Nhablau 3.7 a 3.8 pan gaiff ei ystyried yn erbyn gwerthoedd tir meincnod. A yw'r gwerthoedd tir meincnod ym mharagraff 4.10 o'r astudiaeth yn gynrychioliadau gofodol o'r ardaloedd is-farchnad 'uchaf, canolig ac is' ledled Eryri, neu a ydynt yn ymwneud â'r gwerthoedd gweddilliol 'uchaf, canolig ac is'? Fel y'i cyflwynwyd ar hyn o bryd, mae'n anodd cadarnhau pa aneddiadau sy'n hyfyw ar ba ganran mewn rhai achosion. Dylai hyfywedd ardaloedd marchnad lywio gofynion tai fforddiadwy'r cynllun yn glir ond, ar</p>

	<p>hyn o bryd, nid yw Polisi Strategol G: Tai yn cyd-fynd yn amlwg â'r dystiolaeth ategol. Er enghraifft, mae Polisi G yn mynnu bod Canolfannau Gwasanaethau Lleol yn darparu 20% o dai fforddiadwy ar safleoedd o 5+ uned. Sut mae'r gofyniad hwn yn cyd-fynd â'r gwerth tir meincnod a'r gwerth gweddilliol negyddol yn Nolgellau? (30afh yn Nhabl 3.7). Yn ogystal, dylai'r Awdurdod esbonio sut mae hyfywedd wedi dylanwadu ar y gofyniad tai fforddiadwy o ran dyraniadau yn y cynllun. Er enghraifft, mae'r astudiaeth yn argymhell targed tai fforddiadwy o tua 20% yn Harlech (paragraff 5.4). Sut mae hyn yn ymwneud â'r gofyniad o 33% o ran y dyraniad sy'n agos at Benyrhwylfa, Harlech? Dylai'r Awdurdod sicrhau bod targedau tai fforddiadwy'r cynllun yn gadarn ac yn cael eu hategu gan dystiolaeth leol. A oes unrhyw amgylchiadau lleol megis systemau darparu ac ystyriaethau o ran perchenogaeth tir sy'n effeithio ar hyfywedd? Yn ogystal, nid oes tystiolaeth i gefnogi'r trothwyon ym Mholisi G; bydd angen cyfiawnhau priodoldeb y trothwyon. Yn olaf, dylai'r Awdurdod gynnwys polisi dwysedd yn y CDLI. Defnyddiwyd 30afh yn y gwaith hyfywedd ac mae wedi'i gynnwys ym Mhapur Cefndir 7A, paragraff 18. Bydd hyn yn helpu i weithredu a monitro'r cynllun yn effeithiol.</p>
Sipsiwn a Theithwyr	
Polisi Cenedlaethol	<p>Nodwn fod Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi'i gynnal gan Wynedd ac Ynys Môn (2016) a Chonwy (2017) sy'n cwmpasu'r Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r naill asesiad neu'r llall yn cwmpasu cyfnod cyfan y cynllun hyd at 2031. Dylai'r Awdurdod sicrhau ei fod wedi asesu'r angen i ddarparu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn ystod cyfnod cyfan y cynllun hyd at 2031 a darparu'n briodol.</p>
Rhif 157	<p>Dylai'r Awdurdod adolygu'r meini prawf ym Mholisi 13 er mwyn sicrhau nad ydynt yn rhy gyfyngol. Nid yw Maen Prawf i. yn cyd-fynd â Chylchlythyr 30/2007 (Atodiad B) Llywodraeth Cymru a dylid ei ddileu. Nid ystyrir bod y maen prawf yn anelu at sicrhau hawliau sipsiwn a theithwyr sy'n gyfartal â hawliau dinasyddion eraill, gan na fyddai'r gofyniad i 'ddangos tystiolaeth o angen' yn gyfyngiad a osodir ar unigolion nad ydynt yn sipsiwn na theithwyr. Dylid ailystyried Maen Prawf v. hefyd yn hyn o beth.</p>
Cyflogaeth	
Rhif 173 Rhif 181 Rhif 185 Rhif 187	<p><u>Ardal Fenter Eryri</u></p> <p>Mae'r Ardal Fenter yn cynnwys 2 safle; safle 50 hectar o gwmpas hen orsaf ynni niwclear Trawsfynydd a safle 229 hectar ym Maes Awyr Llanbedr. Nid yw dyraniadau'r cynllun yn cyd-fynd â dynodiad Ardal Fenter Llywodraeth Cymru. Bydd angen i Awdurdod y Parc ddangos tystiolaeth glir o unrhyw wyro oddi wrth ddynodiad Llywodraeth Cymru a'i gyfiawnhau. Mater i Adran berthnasol y Llywodraeth fydd gwneud sylwadau ar ddilysrwydd y dull hwn.</p>
Rhif 170	<p><u>Polisi Diogelu a'r Economi Wledig</u></p> <p>Efallai yr hoffai'r Awdurdod ystyried polisi diogelu newydd ar gyfer y prif safleoedd cyflogaeth presennol (e.e. Parc Menter y Bala) er mwyn diogelu a chadw defnydd at ddibenion cyflogaeth hyd at 2031. Ar safleoedd o'r fath, ni fyddai Polisi H (Meini prawf vii-ix) yn berthnasol.</p> <p>Mae Polisi 19 yn rhy gyfyngol mewn ardaloedd gwledig y tu allan i ffiniau aneddiadau diffiniedig, gan mai dim ond cynigion i addasu cyfleoedd cyflogaeth ar raddfa fach sy'n bodoli eisoes a gaiff eu cefnogi. Dylai'r polisi ganiatáu busnesau newydd a chaniatáu addasu ac ehangu busnesau presennol.</p>
Twristiaeth	
Rhif 210	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r defnydd o amodau deiliadaeth gwyliau (ym mharagraff 6.52) sy'n diogelu cefn gwlad rhag datblygu amhriodol. Er mwyn sicrhau</p>

	cydymffurfiaeth â pholisïau cenedlaethol a TAN 13, dylai paragraff 6.5.2 ddatgan yn glir bod y cyfyngiad ar ddeiliadaeth o 28 diwrnod yn gymwys i'r deiliad ac nid 'deiliadaeth' y llety.
Yr Amgylchedd Naturiol	
Rhif 71 Rhif 79	Dylai'r Awdurdod ddangos y Warchodfa Biosffer yn ofodol ar y Map Cynigion er mwyn gweithredu gofynion Polisi 2 yn llwyddiannus.
Mwynau	
Polisi Cenedlaethol	Dylai'r Awdurdod ddiogelu adnoddau mwynol categori 1 a chategori 2 ar y Map Cynigion yn unol â Map Diogelu Agregau Cymru Arolwg Daearegol Prydain (gweler llythyr y Prif Swyddog Cynllunio, Tachwedd 2012). Bydd hyn yn cefnogi dull yr Awdurdod o hyrwyddo'r defnydd o lechfaen ar gyfer adeiladau newydd (CDLI, paragraff 3.43) a sicrhau cysondeb ag Awdurdodau cyfagos a ledled Cymru. Mae Map Diogelu Agregau Cymru yn ymgorffori 'lwfans diogelu' er mwyn lleihau'r risg o sterileiddio. Nid oes angen i'r Awdurdod gymhwyso 'clustogfa' o unrhyw fath i ardaloedd diogelu mwynau.
Rhif 93 Rhif 96	<p>Dim ond o amgylch safleoedd a ganiateir a safleoedd arfaethedig y dylai clustogfeydd fodoli, yn unol â pholisïau cenedlaethol (MTAN 1, paragraffau 70 a 71), a dylai'r Awdurdod sicrhau bod clustogfeydd i'w cael o amgylch unrhyw weithiau mwynau presennol ac yn cael eu cefnogi gan bolisi addas. Mae paragraff 3.2 o'r Papur Cefndir ar Fwynau yn awgrymu y bydd clustogfeydd i'w cael o amgylch ardaloedd a ddiogelwyd (adnoddau), pan mai dim ond o amgylch safleoedd a ganiateir y mae angen eu cael (gwarchodfeydd). Mae'r paragraff hefyd yn awgrymu y bydd clustogfeydd i'w cael o amgylch aneddiadau presennol, nad yw'n ofynnol gan bolisïau cenedlaethol.</p> <p>O ran Maen Prawf iii. Polisi Strategol E: Diogelu Mwynau, rydym yn awgrymu y dylid ychwanegu 'neu sterileiddio'r adnodd' er mwyn cyd-fynd â pholisïau cenedlaethol (PPW, paragraff 14.7.3).</p>
Gwastraff	
Rhif 49 Rhif 99	Dylid dileu cyfeiriadau at Gynlluniau Gwastraff Rhanbarthol a ddiddymwyd (lle y bo'n briodol). Byddai cyfeirio at y polisi yng Nghynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd, a'r gofynion capasiti ar gyfer cyfleusterau gwastraff a sefydlwyd drwy fonitro'n rhanbarthol (fel y nodir yn TAN 21), o fudd i baragraff 3.45 (Newid 99).
Rhif 101	Dylai'r Awdurdod sicrhau bod Polisi 4 yn darparu fframwaith manwl i'w ddefnyddio i asesu ceisiadau am gyfleusterau rheoli gwastraff newydd. Fel y'i geiriwyd, mae'r polisi yn ymwneud ag 'effeithiau amgylcheddol' yn unig, a gallai fod yn ddefnyddiol ei ehangu i gynnwys meini prawf asesu amwynderau, trafndiaeth a mynediad, yn ogystal â phethau eraill. Mae'r polisi hefyd yn cefnogi ailgylchu gwastraff ar raddfa fach ar safleoedd diwydiannol, a dylai'r Awdurdod nodi'r safleoedd diwydiannol presennol yr ystyrir eu bod yn briodol ar gyfer cyfleusterau o'r fath (TAN 21, paragraff 3.21) a hefyd gynnwys cyfeiriad ym Mholisi 4 at y gofyniad i gyflwyno Aseiad Cynllunio Gwastraff gyda cheisiadau am gyfleuster rheoli gwastraff sydd wedi'i ddsbarthu fel cyfleuster gwaredu, adfer neu ailgylchu (TAN 21, paragraff 4.2).
Ynni Adnewyddadwy	
Rhif 85	Mae'r polisi cenedlaethol yn nodi trothwyon ar gyfer Awdurdodau Lleol cyfan ar gyfer ynni adnewyddadwy rhwng 5MW a 25MW yn achos gwynt ar y tir a rhwng 5MW a 50MW yn achos unrhyw dechnolegau eraill. Dylai'r cynllun gynnwys polisi meini prawf newydd er mwyn asesu ceisiadau i ddatblygu ynni adnewyddadwy ar y naill ochr i'r trothwy 5MW yn achos technolegau perthnasol gwahanol, ac egluro'r berthynas â throthwyon ar gyfer Awdurdodau Lleol cyfan fel yr amlinellir mewn polisiau cenedlaethol

	(PPW, Ffigur 12.2) ym mharagraff 3.31 (Newid 85) o'r cynllun.
--	---